

Gall prynu neu werthu cerbyd ar-lein fod yn beryglus.



Gadewch i ni gydweithio i'w wneud yn fwy diogel.



www.getsafeonline.org

Mae risgiau bob amser wedi bod yn gysylltiedig â phrynu neu werthu cerbyd ar-lein. Ond mae'r cynnydd diweddar mewn prisiau ceir ail law, argaeledd cyfyngedig rhai modelau a chyfyngiadau ar deithio a bod mewn car gyda rhywun wedi creu risgiau ychwanegol, gan roi esgusodion newydd i droseddwr dwyllo prynwyr a gwerthwyr.

Nawr bod pethau'n dychwelyd i normal, mae'n haws i chi gymryd mwy o ofal pan fyddwch chi'n prynu neu'n gwerthu eich cerbyd. Treuliwch amser yn darllen yr awgrymiadau arbenigol hyn cyn i chi fynd ar-lein i brynu neu werthu.



Sut y gallwch adnabod yr hysbysebion, y cerbydau, y prynwyr a'r gwerthwyr ffug?

Prynu'n ddiogel

Talu blaendal

Os bydd rhywun yn gofyn am flaendal neu os byddwch eisoes wedi cytuno arno, peidiwch byth â thalu mwy na faint rydych yn barod i'w golli a chadarnhewch gyda'r gwerthwr y bydd yn ad-dalu'r blaendal os na fyddwch yn prynu'r cerbyd. Byddwch yn wylidwrus o geisiadau am ffioedd cludo ymlaen llaw, gallai fod yn dwyll.

Ewch i weld y cerbyd cyn talu'r cyfanswm llawn bob amser

Ymchwiliwch i'r gwerthwr yn ogystal â'i gerbyd. Ceisiwch gadarnhau bod y cerbyd wir yn bodoli. Bydd y rhan fwyaf o werthwyr twyllodrus yn ceisio eich darbwyllo i drosglwyddo arian cyn i chi hyd yn oed weld y cerbyd, gan nodi un o nifer o esgusodion. Yn aml, byddant yn mynnu cyfathrebu â chi dros e-bost yn unig yn hytrach na dros y ffôn.

Gwnewch yn siŵr bod pris y cerbyd yn cyd-fynd â phris y farchnad

Os bydd y pris, cyflwr, manylion neu filltiroedd y cerbyd yn ymddangos yn rhy dda i fod yn wir, mae'n bosibl iawn mai felly y mae. Ewch ati i ymchwilio i gerbydau tebyg eraill neu gael prisiad am ddim ar wefan AutoTrader. Os yw pris y cerbyd yn is na phris y farchnad, meddyliwch ddwywaith. Gofynnwch gwestiynau i'r gwerthwr am bris y cerbyd, oherwydd gall fod rhesymau dilys dros bris isel.

Cofiwch yrru'r cerbyd cyn ei brynu

Archwiliwch unrhyw gerbyd rydych yn bwriadu ei brynu yn ofalus, a gyrrwch ef. Dylech bob amser wneud hyn ar safle'r gyrrwr neu yn ei gartref; peidiwch byth â gadael i'r person gyfarfod â chi wrth ymyl y ffordd neu mewn unrhyw leoliad arall. Hefyd, dylech ystyried gofyn i'r AA, yr RAC neu sefydliad dibynadwy arall gynnal archwiliad.

Dylech gynnal gwiriad o hanes y cerbyd a'i archwilio

Bydd hyn yn dweud wrthych a yw'r cerbyd wedi'i gofnodi fel un sydd wedi'i ddwyn, sydd y tu hwnt i'w drwsio, sydd wedi'i sgrapio neu sydd â chynllun talu heb ei setlo. Nid yw'n werth mentro prynu cerbyd a allai fod yn anaddas i'r ffordd neu'n werth cyfran o'r pris rydych yn ei dalu amdano. Cadarnhewch hanes gwasanaethu'r cerbyd a gofynnwch am gael gweld tystysgrifau MOT blaenorol er mwyn gwneud yn siŵr nad yw'r milomedr wedi'i addasu. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod eich hawliau statudol o ran ansawdd ac ad-daliadau cyn talu unrhyw arian.

Gwneud taliad

Peidiwch byth ag anfon arian am gerbyd nad ydych wedi'i weld. Peidiwch â chario symiau mawr o arian parod. Dylech ystyried talu drwy drosglwyddiad banc neu gerdyn credyd (os yw'r gwerthwr yn cynnig y cyfleuster).

Gwerthu'n ddiogel

Byddwch yn barod

Dylech sicrhau bod gennych yr holl waith papur perthnasol, megis y V5C, yr hanes gwasanaethu a'r dystysgrif MOT yn barod i ddarpar brynwr fwrw golwg drostynt. Efallai y bydd prynwyr am wirio manylion megis y cyfeiriad ar y V5C a nifer y milltiroedd ar y dystysgrif MOT ddiweddaraf. Peidiwch byth â gadael i'r prynwr dynnu lluniau o'ch dogfennau, rhag ofn bod y cais yn dwyllodrus.

Byddwch yn wylidwrus o sgamwyr

Dylech bob amser gyfarfod â'r prynwr. Gofynnwch am ei fanylion cyswllt, fel ei rif ffôn, cyfeiriad llawn ei gartref, a phrawf adnabod – byddai trwydded yrru yn ddelfrydol. Dylai hyn roi sicrwydd pellach i chi a dylai prynwr dilys fod yn hapus i ddarparu'r wybodaeth hon.

Cyngor ar yrru ceir cyn eu prynu

Gwnewch yn siŵr eich bod yn gofyn i'r prynwr ddoed â'i drwydded yrru a phrawf o'i yswiriant os bydd am yrru'r car cyn ei brynu. Edrychwch ar lefel ei yswiriant i yrru'r car cyn ei brynu. Dylai hyn eich atal rhag gorfod talu am ddifrod.

Peidiwch byth â gadael i'r prynwr yrru'r car ar ei ben ei hun

Peidiwch byth â gadael y darpar brynwr ar ei ben ei hun gyda'r cerbyd, na rhoi'r allwedd i ddo. Os oes gennych ffob tanio heb allwedd, dylech ei gadw gyda chi bob amser, hyd yn oed pan fydd y darpar brynwr yn gyrru'r car. Byddwch yn ymwybodol bod y math hwn o gerbyd yn cael ei ddwyn gan ladron yn fwyfwy aml, gan mai dim ond bod yn agos i'r ffob sydd ei angen yn hytrach na bod yn ei feddiant – gallwch brynu bag arbennig i'w ddal er mwyn atal hyn rhag digwydd. Peidiwch byth â pheryglu eich diogelwch personol ac os byddwch yn teimlo'n anghyfforddus ar unrhyw adeg, cerddwch i ffwrdd.

Arhoswch gartref

Dylech bob amser drefnu i gyfarfod â phrynwr yn eich cartref; peidiwch byth â'i gyfarfod wrth ymyl y ffordd neu ar ei safle.

Derbyn taliad

Peidiwch byth â rhyddhau'r cerbyd nes i chi gael cadarnhad bod y taliad wedi clirio. Os byddwch yn derbyn siec neu ddrafft banc ar gyfer taliad, byddwch yn ymwybodol y gall gymryd sawl diwrnod i'r taliad glirio.



Am ein cyngor cynhwysfawr ar sut i brynu a gwerthu cerbydau'n ddiogel, ewch i www.getsafeonline.org/safevehicle a chwilio 'Buying & Selling Vehicles'

#autofraud

Get Safe Online

Get Safe Online yw'r ffynhonnell fwyaf blaenllaw o wybodaeth a chyngor ar ddiogelwch ar-lein yn y DU, i'r cyhoedd a busnesau bach. Mae'n bartneriaeth sector cyhoeddus/ preifat nid er elw a gefnogir gan asiantaethau gorfodi'r gyfraith a sefydliadau blaenllaw ym maes diogelwch ar y rhyngwrdd, bancio a manwerthu.

I gael rhagor o wybodaeth a chyngor diduedd arbenigol, hawdd ei ddilyn, ar ddiogelu eich hun, eich teulu, eich arian, eich dyfeisiau a'ch gweithlu, ewch i www.getsafeonline.org



www.getsafeonline.org



Ynglŷn â'r Grŵp Cyngori ar Fasnachu Cerbydau'n Ddiogel (VSTAG)

Mae Get Safe Online yn aelod o VSTAG, y Grŵp Cyngori ar Fasnachu Cerbydau'n Ddiogel, sy'n helpu i ddiogelu unigolion sy'n prynu ac yn gwerthu cerbydau ail-law rhag twyll yn ystod y broses o drosglwyddo ar-lein.

Mae aelodau VSTAG, sy'n seiliedig ar bartneriaeth gadarn rhwng cyfryngau hysbysebu cerbydau ar-lein mwyaf blaenllaw'r DU, yr heddlu ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith eraill, yn rhannu gwybodaeth am hysbysebion twyllodrus hysbys neu hysbysebion yr amheuir eu bod yn dwyllodrus – gan gydweithio i leihau nifer y troseddau'n ymwneud â cherbydau ar-lein.

OFFICIAL PARTNERS

